Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



# Briff i'r Ymgeiswyr ar gyfer rôl Cyfarwyddwr
## (Datblygu'r Celfyddydau)

Cyngor Celfyddydau Cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

'Moving is everywhere, forever'gan Faye Tan
Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (llun: Kirsten McTernan)

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Gair o Groeso | 3 |
| Amdanom Ni | 5 |
| Ein Prif Wasanaethau | 6 |
| Ein Sialensiau Strategol | 7 |
| Y Cyfle: | |
| Disgrifiad o Rôl y Cyfarwyddwr (Datblygu'r Celfyddydau) | 10 |
| Prif gyfrifoldebau | 13 |
| Gwybodaeth, profiad a nodweddion | 16 |
| Llywodraethu a Strwythur | 19 |
| Amodau a Thelerau | 21 |
| Sut i Gyflwyno Cais | 22 |
| Amserlen Recriwtio | 23 |

## Gair o Groeso



Diolch i chi am ddangos diddordeb yn rôl y Cyfarwyddwr (Datblygu’r Celfyddydau) gyda Chyngor Celfyddydau Cymru.

Rôl arwain allweddol yw hon sy'n cynnig cyfle pwysig i weithio ar y lefel uchaf o fewn un o sefydliadau elusennol mwyaf Cymru.

Sefydlwyd Cyngor Celfyddydau Cymru dan Siarter Frenhinol ym mis Mawrth 1994. Elusen gofrestredig ydyn ni ac ymddiriedolwyr yr elusen yw'r Aelodau a benodir i'r Cyngor.


Corff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru ydyn ni, ac yn ogystal rydyn ni'n un o'r cyrff sy'n dosbarthu cyllid y Loteri Genedlaethol. Ni yw sefydliad ariannu a datblygu swyddogol Cymru ym maes y celfyddydau.

Mae'r Cyfarwyddwr (Datblygu'r Celfyddydau) yn aelod allweddol o'r Uwch Dîm Arwain (UDA); sef y prif gorff gweithredol sy’n gwneud penderfyniadau ar ran y Cyngor. Fel aelod o'r UDA, byddwch chi'n chwarae rôl bwysig wrth helpu i sicrhau bod uchelgais Cyngor y Celfyddydau i sbarduno sector celfyddydau sy'n fwy democrataidd yn ddiwylliannol yng Nghymru yn cael ei gwireddu. Bydd gennych feddylfryd democrataidd ac entrepreneuraidd, a chyflawni sialensiau busnes a datblygu'r celfyddydau mewn ffordd gynaliadwy fydd yn rhoi’r tân yn eich bol. Bydd meithrin partneriaethau o fewn y sector cyhoeddus sy'n sbarduno cyfleoedd newydd ar gyfer y celfyddydau yn rhywbeth rydych chi'n gyfarwydd ag ef ac yn llwyddiannus yn ei wneud.

Bydd disgwyl i'r Cyfarwyddwr (Datblygu'r Celfyddydau) lywio ein hagenda datblygu trwy hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru. Mae datblygu dulliau arloesol o fynd ati i sefydlu nodau llesiant yn gadarn ar draws y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru yn rhan bwysig o'r swydd, felly mae dealltwriaeth bersonol ac ymrwymiad i egwyddorion datblygu cynaliadwy a chyfrifoldeb amgylcheddol yn hanfodol. Mae’r pecyn gwybodaeth yma’n disgrifio’r dyletswyddau cyfredol, ond bydd cyfrifoldebau ar lefel yr UDA yn amrywio, a gallant newid o bryd i'w gilydd mewn ymateb i'r hyn y mae'r Cyngor am ei ddatblygu ac mewn ymateb i amgylchiadau allanol a gwahanol  sgiliau . Ni fydd hyn yn rhywbeth a fydd yn codi ofn arnoch am y byddwch chi'n un sy’n mwynhau sialensiau a chyfleoedd newydd.

Bydd profiad proffesiynol o weithio ar lefel uwch reolwr mewn rôl debyg mewn amgylchedd ariannol a/neu ddyfarnu grantiau cymhleth yn bwysig er mwyn i chi ennill parch a hyder y sector. Byddwch yn wybodus ynghylch y celfyddydau, ac yn ddelfrydol bydd gennych brofiad uniongyrchol o weithio mewn sefydliad celfyddydol neu ddiwylliannol. Byddwch chi'n alinio'n llwyr â'n gwerthoedd fel sefydliad a bydd gennych ddull o weithredu sy'n canolbwyntio ar bobl.

Rôl bwysig yw hon wrth galon un o'r sefydliadau prysuraf ac uchaf ei broffil yng Nghymru ar adeg o newid. Mae yna waith i'w wneud. Dyma un o'r swyddi gorau ym myd y celfyddydau yng Nghymru i rywun sydd am gamu i fyny i swydd arwain a gwneud gwahaniaeth fel aelod o dîm o gydweithwyr ymroddgar. Bydd arnoch angen meddylfryd cadarnhaol o ran eich gwaith, sgiliau cyfathrebu rhagorol ac ymrwymiad i ofalu am gwsmeriaid. Os oes gennych chi'r sgiliau, y profiad a'r gwytnwch rydyn ni'n chwilio amdanynt, yna byddai'n bleser clywed gennych.



Siân Tomos
Darpar Brif Weithredwr

## Amdanom Ni

Ein gweledigaeth yw creu Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau wrth galon bywyd a llesiant y genedl, gan wneud ein gwlad yn lle cyffrous a bywiog i fyw a gweithio ynddi ac i ymweld â hi.

Mae llwyddiant ein gweledigaeth yn dibynnu ar ddychymyg a chreadigrwydd ein hartistiaid, ansawdd eu gwaith a'r ymdrechion a wneir i estyn allan ac ysbrydoli cynulleidfaoedd. Ein rôl ni yw creu amgylchedd lle gall artistiaid uchelgeisiol a blaengar dyfu a llewyrchu, a lle gall cynifer o bobl â phosibl fwynhau'r celfyddydau a chwarae rhan ynddynt. Rydyn ni'n helpu i gefnogi a chynyddu'r gweithgarwch yma trwy ddefnyddio'r cyllid cyhoeddus y mae Llywodraeth Cymru'n ei ddarparu ar ein cyfer, a thrwy rannu arian y Loteri Genedlaethol.

Ar hyn o bryd, rydyn ni'n derbyn rhyw £32.6m o gyllid gan Lywodraeth Cymru a rhyw £16.5m o arian y Loteri Genedlaethol. Trwy reoli a buddsoddi'r cyllid yma mewn gweithgarwch creadigol, mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n cyfrannu at les diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd Cymru.

Rydyn ni'n cyflogi 87 aelod o staff mewn tri lleoliad ar draws Cymru – sef Caerdydd, Caerfyrddin a Bae Colwyn.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Gyngor Celfyddydau Cymru trwy fynd i wefan Cyngor Celfyddydau Cymru, ac ar Gymru a Chaerdydd yma https://www.visitwales.com/ a https://www.visitcardiff.com/



Hwb Haf 2020, Theatr Clwyd
Llun : Dafydd Owen (Ffotonant)

## Ein Prif Wasanaethau

Rydyn ni'n cynnal ac yn datblygu gweithgarwch celfyddydol o safon uchel – rydyn ni'n buddsoddi cyllid cyhoeddus o bwrs y trethdalwyr sy'n cael ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru. Rydyn ni'n defnyddio'r cyllid yma i greu cyfleoedd i bobl fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

Rydyn ni'n dosbarthu arian y Loteri – trwy geisiadau i'n rhaglenni ariannu'r Loteri gallwn fuddsoddi mewn prosiectau sy'n datblygu gweithgarwch celfyddydol newydd, gan gynorthwyo unigolion, cymunedau a sefydliadau.

Rydyn ni'n darparu cymorth arbenigol ym maes y celfyddydau – trwy ein Cyngor, ein staff a'r Cynghorwyr Cenedlaethol. Gennym ni mae'r crynhoad mwyaf o arbenigwyr medrus yn y celfyddydau yng Nghymru.

Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth – ni yw'r ganolfan genedlaethol sy'n cynnal rhwydwaith o wybodaeth a deallusrwydd am y celfyddydau yng Nghymru. Mae gennym gysylltiadau rhyngwladol cadarn yn y DU a'r tu hwnt.

Rydyn ni'n codi proffil y celfyddydau yng Nghymru – ni yw llais cenedlaethol y celfyddydau yng Nghymru, gan sicrhau bod pobl yn ymwybodol o ansawdd, gwerth a phwysigrwydd artistiaid a sefydliadau celfyddydol y wlad.

Rydyn ni'n cynhyrchu mwy o arian ar gyfer y celfyddydau – ni sy'n rheoli mentrau fel y Cynllun Casglu (ein cynllun i annog mwy o bobl i brynu celf); rydyn ni'n diogelu cyllid o Ewrop a chan Gronfeydd Sefydliadau i ehangu'r celfyddydau yng Nghymru; yn rheoli prosiectau pwysig fel Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau (menter ar y cyd â Llywodraeth Cymru i hyrwyddo creadigrwydd yn ein hysgolion); ac yn cyd-ariannu Cydlynwyr y Celfyddydau ac Iechyd gyda'r saith Bwrdd Iechyd.

Rydyn ni'n dylanwadu ar y bobl sy'n cynllunio ac yn gwneud penderfyniadau – mae'r celfyddydau'n digwydd mewn amryw o wahanol leoliadau. Maen nhw'n gallu cael effaith aruthrol ar ansawdd bywydau pobl, a'r llefydd lle maen nhw'n byw ac yn gweithio. Mae'r celfyddydau yn aml wrth galon mentrau i ddatblygu dulliau o weithredu ym maes addysg, gwella iechyd a llesiant a sicrhau adfywiad economaidd a chymdeithasol. Ein gwaith ni yw sicrhau bod y cyfraniad y gall y celfyddydau ei wneud yn cael ei gydnabod, ei werthfawrogi a'i ddathlu.

Rydyn ni'n datblygu cyfleoedd rhyngwladol ym maes y celfyddydau – trwy ein hasiantaeth arbenigol, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, rydyn ni'n datblygu partneriaethau â sefydliadau diwylliannol fel Cyngor Prydain, rydyn ni'n hyrwyddo diwylliant cyfoes Cymru ar lwyfan ryngwladol, ac rydyn ni'n hyrwyddo trafodaeth a chydweithredu rhyngwladol rhwng artistiaid a sefydliadau'r celfyddydau. Ac rydyn ni'n cysylltu'r gweithgarwch rhyngwladol yma â bywydau ein cymunedau amrywiol yng Nghymru hefyd.

Rydyn ni'n hyrwyddo perfformiadau graddfa fach mewn cymunedau lleol – mae ein cynllun Noson Allan yn cynnig cymhellion ariannol i annog hyrwyddo gweithgarwch celfyddydol o safon uchel mewn cymunedau lleol.

## Ein Sialensiau Strategol

### Gwytnwch a chreadigrwydd yn wyneb darbodaeth economaidd.

Mae'r celfyddydau yng Nghymru'n stori o lwyddiant mawr. Pob dydd, mae niferoedd mawr o bobl yn mwynhau ac yn cymryd rhan yn y celfyddydau. Nid trwy ddamwain y mae hynny'n digwydd - ond o ganlyniad i ddiddordeb cynyddol gan y cyhoedd ar draws Cymru gyfan.

Mae'r celfyddydau'n cyfoethogi llesiant dinasyddion ar draws Cymru gyfan. Maen nhw'n dod â bywyd ac yn rhoi ystyr i amrywiaeth o strategaethau sy'n gosod sylfeini ar gyfer polisi cyhoeddus. O artistiaid cymunedol i'r diwydiannau creadigol, o'r celfyddydau ac iechyd i dwristiaeth ddiwylliannol, o gelfyddyd gyhoeddus i adfywio canol trefi, daw'r celfyddydau ag ystyr a mwynhad i'n bywydau pob dydd. Maen nhw'n creu ac yn cynnal swyddi, yn cyfoethogi gwasanaethau addysg ac yn tynnu pobl ynghyd. Mae'r celfyddydau'n bwysig am eu bod nhw'n cyffroi, yn ysbrydoli ac yn diddanu pobl.




Berwyn, Lleisiau Eraill Aberteifi 2021, Amgueddfa Cymru. Theatr Mwldan (llun: Jennie Caldwell)

### Rydyn ni'n gweithio i greu amgylchedd lle gall artistiaid a sefydliadau celfyddydol lewyrchu.

Dyma ein cenhadaeth i ddatblygu'r celfyddydau. Ond mae’r genhadaeth hon yn dod o dan straen pan fo adnoddau'n dynn. Am fwy na degawd o'r flwyddyn 2000 ymlaen, gwelsom fuddsoddiad parhaus o arian cyhoeddus a chyllid y Loteri yn ein bywyd diwylliannol. Ond gwelwyd pum mlynedd o doriadau mewn cyllid yn sgil hynny, gan erydu'r cynnydd mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru a welwyd yn y 1990au a blynyddoedd 2000. Yn wir, mae'r cyfuniad o gymhorthdal grant a chyllid y Loteri Genedlaethol a gawn heddiw werth llai nag yr oedd 23 mlynedd yn ôl.

Er mwyn i'r celfyddydau yng Nghymru oroesi a llewyrchu, bydd angen arweinyddiaeth gadarn ac entrepreneuraidd arnynt i fanteisio ar y cyllid cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi ynddynt.

## Er Budd Pawb… – cyfeiriad strategol newydd.

Ein gweledigaeth yw creu Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau wrth galon bywyd a llesiant y genedl. Mae ein Cynllun Corfforaethol, Er Budd Pawb… yn esbonio ein gweledigaeth yn fwy manwl

Dwy flaenoriaeth sy'n sail i'n gweledigaeth, sef:

- Hyrwyddo Cydraddoldeb fel sylfaen ar gyfer ymrwymiad cadarn i estyn yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned ledled Cymru.

- Cryfhau Gallu a Gwytnwch y sector fel y gall dawn greadigol lewyrchu.

Mae ymdrechion i gynyddu ac ehangu cynulleidfaoedd wedi bod yn greiddiol i bolisïau ariannu Cyngor Celfyddydau Cymru ers degawdau bellach. Ond mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod manteision buddsoddiad cyhoeddus yn y celfyddydau'n dal i fod yn styfnig o gyfyngedig i gyfran fechan o'r boblogaeth.

Rydyn ni am i hyn newid.

Wedi'r cyfan, mae cymdeithas hael, deg a goddefgar yn gynhwysol wrth reddf, ac mae'n gwerthfawrogi ac yn parchu creadigrwydd ei holl ddinasyddion. Felly rydyn ni'n dilyn strategaeth decach a mwy cynhwysol sy'n estyn yn ddyfnach ac yn ehangach na'r un gyfredol.  Mae hyn yn arbennig o wir yn sgil y pandemig.



The Night Porter, sesiwn holi ac ateb.
Theatr y Parc a'r Dâr (llun: Abigail Savage Lewis)

Mae'r angen am newid llawn mor berthnasol i Gyngor y Celfyddydau ag y mae i'r rhai rydym yn eu hariannu.

Mae hi'n bwysig iawn ein bod ni'n dangos ein bod ni'n ymarfer yr un ddisgyblaeth â sefydliadau eraill ar draws y sector cyhoeddus. Ein nod yw creu math gwahanol o sefydliad. A thrwy wahanol rydyn ni'n meddwl gwell, a hynny er gwaetha'r cyfyngiadau ariannol. Un sy'n cydweithio'n well, yn datblygu potensial, gallu a gwytnwch ein hartistiaid a'n sefydliadau celfyddydol yn well, ac yn harneisio dawn a brwdfrydedd ein staff yn hunain yn well.

Mae hynny'n golygu newid – newid ein polisïau, ein ffyrdd o weithio a'n diwylliant fel sefydliad. Mater yw hi felly o sicrhau ein bod ni'n drefnus, a'n bod ni'n rheoli'r broses o newid, gan bennu'r tôn a'r arddull o ran sut rydyn ni eisiau gweithio yn y dyfodol, a hynny mewn ffordd effeithiol. O ystyried ein hymrwymiad i roi blaenoriaeth i gydraddoldeb a chynwysoldeb, mae'n allweddol ein bod ni'n newid fel bod ein staff a'n cysylltiad â sector y celfyddydau'n adlewyrchu'r amrywiaeth o brofiadau byw sy'n bodoli yng nghymunedau Cymru.

Wrth symud ymlaen, byddwn ni'n parhau i fod yn genhadon angerddol dros y celfyddydau. A byddwn ni'n parhau i chwarae rhan gyffrous wrth helpu'r celfyddydau yng Nghymru i lewyrchu. Fe wnawn ni hyn trwy greu sefydliad effeithiol sy'n 'addas at ei bwrpas', ac sy'n cael ei werthfawrogi llawn cystal gan ei ddefnyddwyr, ei bartneriaid a'i staff.



Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Elusen Aloud
Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau (llun: Jake Morley)

## Disgrifiad o Rôl y Cyfarwyddwr (Datblygu'r Celfyddydau)

£59,269 - £75,477 yn dibynnu ar brofiad + pensiwn rhagorol + oriau gweithio hyblyg Lleolir y swydd hon yn unrhyw un o swyddfeydd Cyngor Celfyddydau Cymru

Ydych chi'n angerddol ynghylch y Celfyddydau yng Nghymru? Yna helpwch ni i gyflawni ein Gweledigaeth i "Greu Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau wrth galon bywyd a llesiant y genedl"!

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n bodoli i gynorthwyo a datblygu'r Celfyddydau yng Nghymru. Mae'n gwneud hynny er budd pobl ar draws Cymru ac i hyrwyddo celfyddydau Cymreig ar lwyfan ryngwladol. Sefydlwyd y Cyngor dan Siarter Frenhinol, mae'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yn ddosbarthwr arian y Loteri Genedlaethol ac yn Elusen gofrestredig.

Mae rôl y Cyfarwyddwr (Datblygu'r Celfyddydau) yn gyfle gwych i Weithredwr/Uwch Weithiwr dawnus gymryd rôl arwain, gan weithio ar y lefelau uchaf gydag un o sefydliadau elusennol mwyaf Cymru.

Fel aelod o Uwch Dîm Arwain Cyngor Celfyddydau Cymru, sef y prif gorff sy'n gwneud penderfyniadau ar ran y Cyngor, bydd disgwyl i'r Cyfarwyddwr (Datblygu'r Celfyddydau) arwain y gwaith o gyflawni gwasanaeth gwybodaeth fusnes mewnol ac allanol o safon uchel, a sicrhau bod trafodion busnes gyda'r sefydliadau a'r unigolion a ariannwn yn cael eu rheoli'n dda. Bydd y Cyfarwyddwr yn darparu arweinyddiaeth strategol ar bob mater sy'n ymwneud â rheoli a monitro grantiau, gan gynnwys darparu gwybodaeth sy'n cyfrannu at ein hadroddiadau statudol. Gan weithio gyda'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, bydd y Cyfarwyddwr (Datblygu'r Celfyddydau) yn dylunio strategaethau cynaliadwy a hyfyw ar gyfer cyllid grant sy'n galluogi'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau.

Bydd cyfrifoldebau lefel gorfforaethol penodol yn amrywio ac yn newid yn ôl y prosiectau y mae'r Cyngor yn dymuno eu datblygu. Ar hyn o bryd, y Cyfarwyddwr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am Gyfathrebu'r Cyngor, Collectorplan a'n strategaeth Celfyddydau ac Iechyd.

Mae'r swydd hon yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg yn y sector celfyddydau, felly bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus ymwybyddiaeth ymarferol da o'r iaith Gymraeg ac ymrwymiad i ddysgu'r iaith yn rhugl o fewn llinell amser rhesymol (12 mis).

Ymhlith y buddion a gynigir mae oriau/patrwm gweithio hyblyg, gwyliau hael a phensiwn cyflog terfynol.

Mae pecyn ymgeiswyr cynhwysfawr ar wefan Goodson Thomas, ac mae'n cynnwys amserlen a manylion am sut i wneud cais. Am ragor o wybodaeth ewch i https://www.goodsonthomas.com/vacancies/

I gael sgwrs gyfrinachol anffurfiol am y rôl, cysylltwch â'n hymgynghorydd, Goodson Thomas, ar info@goodsonthomas.com

Dyddiad cau: 09:00 y bore ar ddydd Mercher 1 Medi 2021

Dyddiad y cyfweliad: 13 neu 14 Hydref 2021

Rydyn ni'n gweithredu Polisi Recriwtio Cyfle Cyfartal ac yn croesawu ceisiadau o bob rhan o'r gymuned, a hynny yn Gymraeg neu Saesneg.

# Cyfarwyddwr (Datblygu'r Celfyddydau)

## Disgrifiad o'r Rôl

| | |
|---|---|
| Graddfa gyflog: | F |
| Cyfeirnod: | DAD |
| Tîm: | Datblygu'r Celfyddydau |
| Adrodd i'r: | Prif Weithredwr |
| Cyfrifoldebau rheoli staff: | Cynorthwyydd Personol (Datblygu'r Celfyddydau) |
| | Cydlynwyr Tîm (Datblygu'r Celfyddydau) |
| | Rheolwyr Portffolio |
| | Pennaeth (Cyfathrebu) |
| Lleoliad: | Hyblyg - gellir gweithio o unrhyw un o swyddfeydd Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Teithio: | Cyson |

## Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n elusen annibynnol, a sefydlwyd dan Siarter Frenhinol ym 1994. Ni yw'r corff cyhoeddus cenedlaethol sy'n gyfrifol am ariannu a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru.

Ein gweledigaeth yw creu Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau wrth galon bywyd a llesiant y genedl, gan wneud ein gwlad yn lle cyffrous a bywiog i fyw a gweithio ynddi ac i ymweld â hi.

Mae llwyddiant ein gweledigaeth yn dibynnu ar ddychymyg a chreadigrwydd ein hartistiaid, ansawdd eu gwaith a'r ymdrechion a wneir i estyn allan ac ysbrydoli cynulleidfaoedd. Rydyn ni'n gweithio i greu amgylchedd lle gall artistiaid uchelgeisiol a blaengar dyfu a llewyrchu, a lle gall cynifer o bobl â phosibl fwynhau a chwarae rhan yn y celfyddydau.

## Am y rôl

Rôl arwain allweddol yw rôl y Cyfarwyddwr (Datblygu'r Celfyddydau), lle bydd gofyn i chi weithredu'n hyderus ar lefel uwch.

Mae'r Cyfarwyddwr (Datblygu'r Celfyddydau) yn aelod o'r Uwch Dîm Arwain (UDA). Yr UDA yw prif gorff y Cyngor o ran gwneud penderfyniadau gweithredol. Ei rôl yw llywio amcanion a blaenoriaethau cyffredinol Cyngor y Celfyddydau ac arwain y gwaith o wireddu ei bolisïau.

Mae'r UDA yn gyfrifol am reoli cyllid, adnoddau a phobl Cyngor y Celfyddydau yn effeithiol hefyd, gan sicrhau bod busnes y Cyngor yn cael ei reoli'n effeithlon ac mewn ffordd atebol a phriodol.

Ffocws penodol y rôl fydd gwireddu penderfyniad y Cyngor i gyflwyno â dull mwy deinamig ac entrepreneuraidd o weithredu er mwyn cyflawni'r sialensiau o ran busnes, datblygu gweithlu'r celfyddydau a meithrin partneriaethau â'r sector cyhoeddus gan greu cyfleoedd newydd ar gyfer y celfyddydau. Disgwylir i'r Cyfarwyddwr sicrhau y gall Cyngor y Celfyddydau siarad yn awdurdodol am y celfyddydau, gwneud penderfyniadau gwybodus am y celfyddydau a chyfleu polisi'r Cyngor yn hyderus. Un agwedd allweddol ar y rôl yw helpu'r celfyddydau yng Nghymru i ddiogelu buddsoddiad newydd gan Ymddiriedolaethau, Sefydliadau a noddwyr o'r byd busnes.

Y Cyfarwyddwr (Datblygu'r Celfyddydau) yw eiriolwr corfforaethol Cyngor y Celfyddydau mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â sicrhau bod y Ddeddf yn dylanwadu ar strategaeth a chyflawniadau Cyngor y Celfyddydau ei hun, bydd y Cyfarwyddwr yn datblygu dulliau arloesol o fynd ati i sefydlu'r nodau llesiant ar draws y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

Bydd y cyfrifoldebau corfforaethol penodol eraill yn amrywio ac yn newid yn dibynnu ar y prosiectau y mae'r Cyngor am eu datblygu. Ar hyn o bryd, y Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am strategaethau'r Cyngor o ran Cyfathrebu, y Cynllun Casglu a'r Celfyddydau ac Iechyd.

## Prif gyfrifoldebau

Celfyddydau Cymru'n effeithiol trwy:

- weithio gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr (gan ddirprwyo yn eu habsenoldeb pan fo angen)
- darparu cyngor proffesiynol ar lefel uwch – cyflwyno argymhellion i'r Cyngor a'i Bwyllgorau yn eu meysydd cyfrifoldeb
- goruchwylio amcanion y Cyngor o ran llesiant a gwaith Grŵp Monitro Cenedlaethau'r Dyfodol
- sicrhau bod partneriaethau a phrosiectau cyhoeddus sy'n hyrwyddo adfywiad cymunedau a democratiaeth ddiwylliannol yn cael eu hintegreiddio'n drylwyr i'r broses gynllunio gorfforaethol
- cyfrannu at reolaeth gorfforaethol Portffolio Celfyddydol Cymru

- bwydo cyflawniad y Cynllun Corfforaethol a'i flaenoriaethau, gan gynnwys pennu cyllidebau
- gweithredu fel 'arweinydd' corfforaethol Cyngor y Celfyddydau wrth oruchwylio gweithgarwch Cyfathrebu'r Cyngor
- cymryd cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau corfforaethol fel aelod o'r Tîm Arwain Uwch
- gweithio gydag aelodau a swyddogion Llywodraeth Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol a'i Bwyllgorau (fel y bo'n briodol)

Polisi a strategaeth – cychwyn, arwain a goruchwylio datblygiad a gweithrediad polisïau, strategaethau a chynlluniau gwariant yn y meysydd canlynol:

- meithrin partneriaethau ag awdurdodau lleol a'r trydydd sector
- datblygu busnes a chodi arian
- datblygu pobl greadigol broffesiynol
- datblygu'r gweithlu a'u sgiliau
- y celfyddydau a llesiant • y diwydiannau creadigol
- datblygu cynaliadwy.

Prosiectau a chyfrifoldebau corfforaethol – swyddog arweiniol y Cyngor wrth oruchwylio'r gweithgareddau a'r prosiectau canlynol:

- gweithgareddau cyfathrebu ac eiriolaeth Cyngor y Celfyddydau
- Y Celfyddydau ac Iechyd
- Y Cynllun Casglu
- Celfyddydau Awyr Agored a'r Celfyddydau a Natur
- Y Gymraeg
- Y Diwydiannau Creadigol

Cydraddoldeb – hyrwyddo amcanion y Cyngor yn ymarferol trwy sicrhau bod y Cyngor a'i staff, fel unigolion ac fel grŵp, yn llwyr gofleidio egwyddorion a blaenoriaethau ein hamcanion o ran Cydraddoldeb.

Gwybodaeth arbenigol – y gallu i hwyluso a chynnig cyngor awdurdodol ac arbenigol yn y meysydd polisi dynodedig, a'r gallu i ennyn parch y gymuned artistig yng Nghymru.

Datblygu adnoddau – dylanwadu ar bartneriaid a rhanddeiliaid a negodi â nhw i ddatblygu buddsoddiad ychwanegol i gynorthwyo cyflawniad prosiectau'r Cyngor.

Partneriaethau – meithrin a chynnal perthnasau lefel uwch gyda chyrff ac asiantaethau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Data a gwybodaeth – sicrhau bod mecanweithiau priodol yn bodoli i bwyso a mesur llwyddiant strategaethau'r Cyngor yn y meysydd cyfrifoldeb arbenigol.

Rheolaeth – atebolrwydd dros sicrhau defnydd effeithiol a phriodol o adnoddau ariannol, dynol a ffisegol. Mae hyn yn cynnwys:

- cynorthwyo a mentora staff (helpu i gynllunio, rheoli a chyflawni gwaith, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol)
- cadw rheolaeth effeithiol ac atebol dros gyllidebau
- cyflawni prosiectau allweddol neu wasanaethau Cyngor y Celfyddydau.

Lles a chynaliadwyedd – hyrwyddo dull o reoli a chyflawni gweithgareddau'r Cyngor sy'n cofleidio ymrwymiad cadarnhaol at nodau llesiant Llywodraeth Cymru.

Rheoli risg – sicrhau bod:

- camau priodol yn cael eu cymryd i: glustnodi, rheoli a hysbysu am risgiau yn eich maes cyfrifoldeb
- deiliad y swydd yn dilyn y polisïau corfforaethol hynny a allai adael Cyngor y Celfyddydau'n agored i risg adroddadwy pe na baent yn cael eu dilyn. Mae'r rhain yn cynnwys Atal Twyll, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Seiberddiogelwch/defnyddio TGCh.

Eiriolaeth – hyrwyddo proffil Cyngor Celfyddydau Cymru a'r gweithgareddau y mae'n eu cefnogi.

Hyblygrwydd – fel aelod o staff uwch, bydd gofyn i chi weithio ar draws y DU yn aml, a hynny y tu hwnt i oriau gwaith arferol. Bydd y cyfrifoldebau'n gofyn am deithio rhyngwladol achlysurol hefyd.

Cydymffurfiaeth gorfforaethol – dilyn y polisïau hynny sy'n amddiffyn Cyngor y Celfyddydau a'i staff rhag datguddiad posibl i risgiau a digwyddiadau adroddadwy. Mae'r rhain yn cynnwys Atal Twyll, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, Safonau'r Gymraeg, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Seiberddiogelwch/defnyddio TGCh. (Diffinnir cyfrifoldebau'r staff ym mholisïau perthnasol Cyngor y Celfyddydau.)

Dyletswyddau ychwanegol – unrhyw ddyletswyddau rhesymol sy'n gyson â'r uchod.

## Gwybodaeth, profiad a nodweddion

Rydym am ddenu i'r sefydliad pobl sydd â diddordeb ym myd y celfyddydau, ymrwymiad i egwyddorion gwasanaethau cyhoeddus agored ac atebol, a'r ddawn i weithio gydag amrywiaeth eang o gwsmeriaid. Rydyn ni'n credu mewn gosod y safonau uchaf ym mhob agwedd ar ein gwaith. Felly mae pob aelod o staff yn gennad i'r sefydliad ac rydyn ni'n disgwyl i bawb barchu a chynnal ein henw da.

Ein nod yw bod yn sefydliad arloesol a blaengar. Rydyn ni am i'n staff gydweithio â'i gilydd er mwyn sicrhau ein bod ni'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddefnyddiol.


Rydyn ni'n ei chymryd yn ganiataol y bydd ein staff yn hyfedr wrth reoli gweinyddiaeth bob dydd ac y byddant wedi datblygu sgiliau trefnu da. Am hynny, mae diddordeb penodol gennym mewn staff sy'n gallu gweithio'n hyblyg gan ddefnyddio'u dychymyg i fynd i'r afael â'r sialensiau a fydd yn eu hwynebu – staff sydd â'r fenter a'r egni i lewyrchu mewn amgylchedd gwaith prysur, ac sy'n cael boddhad o gyflawni targedau uchelgeisiol ac ymestynnol.


Yn ogystal, mae'r rôl yma'n gofyn am y wybodaeth, y profiad a'r nodweddion penodol a bennir isod. Caiff ymgeiswyr eu hasesu yn erbyn y meini prawf hanfodol a dymunol hyn:

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Gwybodaeth | • Angerdd dros y celfyddydau a'r weledigaeth i ddatblygu mentrau a strategaethau sy'n datblygu blaenoriaethau Cyngor y Celfyddydau<br>• Gwybodaeth helaeth a manwl am y celfyddydau yng Nghymru a'r berthynas â'r sectorau sy'n dod o fewn cylch gorchwyl y swydd hon<br>• Dealltwriaeth fanwl am faterion cydraddoldeb a'u defnydd ymarferol yng ngwaith Cyngor y Celfyddydau<br>• Gwybodaeth ymarferol am sut mae'r llywodraeth ganolog a llywodraeth leol yn gweithio | • Gwybodaeth am y sin celfyddydau cyfrwng Cymraeg |
| Sgiliau | • Sgiliau TG a gweinyddol hyfedr | |
| Profiad | • Gradd berthnasol a/neu brofiad proffesiynol sylweddol ar lefel rheolwr uwch ym myd y celfyddydau<br>• Profiad o lunio polisi cyhoeddus<br>• Profiad o gynllunio prosiectau a rheoli prosiectau yn y maes gweithgarwch perthnasol<br>• Dealltwriaeth sylweddol am faterion ariannol a busnes – y gallu i gynllunio a rheoli cyllidebau, ac asesu, clustnodi a mynd i'r afael â materion ariannol a gweithredol ym myd y celfyddydau | |

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Nodweddion | • Yr awdurdod personol i weithredu â hygrededd ar lefel uwch, a'r hyblygrwydd i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm<br>• Sgiliau cyfathrebu rhagorol wrth siarad ac wrth ysgrifennu – y gallu i fod yn eiriolwr, yn ddylanwadwr ac yn negodwr effeithiol a darbwyllol<br>• Y sgiliau arwain a'r profiad o reoli i'ch galluogi i ysbrydoli, mentora a chefnogi staff<br>• Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br>• Y gallu a'r parodrwydd i deithio'n gyson ledled Cymru, y DU a thramor yn achlysurol, ac i weithio oriau anghymdeithasol pan fo angen (gallai hynny fod yn ofyniad misol o leiaf) | |
| Y Gymraeg | • Ymwybyddiaeth ymarferol da o’r iaith Gymraeg ac ymrwymiad i ddysgu’r iaith yn rhugl o fewn llinell amser rhesymol (12 mis). Byddwn ni'n darparu gwersi Cymraeg, hyfforddiant a chymorth personol ar eich cyfer. | • Byddai rhuglder yn y Gymraeg (ysgrifenedig a llafar) yn fanteisiol dros ben. |

## Llywodraethu a Strwythur




Y Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau
(Tîm y Celfyddydau)
Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Gwasanaethau Ariannu'r Celfyddydau)
(Tîm y Celfyddydau)
Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau
(Tîm y Celfyddydau)
Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes
Y Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
Rheolwyr Portffolio
(4 FTE)
Pennaeth Cyfathrebu
(1 FTE)
Swyddogion Datblygu
(7 FTE)
Swyddog Cyfathrebu
(1 FTE)
Ysgogwr y Gymraeg
(1 FTE)
Swyddog Dylunio a Chyhoeddiadau
(1 FTE)
Cyfieithydd
(1 FTE)
Golygydd Cynnwys y We
(1 FTE)
PA/Cydlynydd Swyddfa
(Bae Colwyn) (1 FTE)
Cydlynydd Tîm
(1 FTE)

## Amodau a Thelerau

| | |
|---|---|
| Telerau Penodi | Parhaol |
| Lleoliad | Hyblyg - gellir gweithio o unrhyw un o swyddfeydd Cyngor Celfyddydau Cymru. |
| Oriau Gwaith | Rôl amser-llawn yw hon, felly bydd gofyn i chi weithio 37 awr yr wythnos heb gynnwys egwyl ginio. |
| Cyflog | Y cyflog ar gyfer y rôl yma yw £59,269 - £75,477 y flwyddyn. Bydd y cyflog cychwynnol yn dibynnu ar brofiad. Gellir ystyried trefniadau gwaith hyblyg. |
| Gwyliau Blynyddol | 30 diwrnod y flwyddyn pro rata i gychwyn, plws gwyliau banc a 2.5 diwrnod o wyliau braint. |
| Tâl Salwch | Hyd at chwe mis ar gyflog llawn a hyd at chwe mis ar hanner cyflog, hyd at uchafswm o 12 mis mewn unrhyw gyfnod o bedair blynedd ar ôl cwblhau cyfnod prawf yn llwyddiannus. |
| Cynllun Pensiwn | Cynllun cyflog terfynol â chyfraniad cyflogwr o 6%. |
| Yswiriant Bywyd | Yn gynwysedig yn y cynllun pensiwn. |
| Cyfnod Prawf | Chwe mis o gyfnod prawf â'r opsiwn i ymestyn hyn am dri mis pellach os oes angen. |

## Sut i Gyflwyno Cais

Dewisir y Prif Weithredwr (Datblygu'r Celfyddydau) ar sail cyfuniad o gais ysgrifenedig a chyfweliad. I gyflwyno cais am y rôl, a fyddech cystal â darparu'r canlynol:

- CV cyfoes (dim mwy na 3 tudalen);
- llythyr esboniadol sy'n cyfeirio at y meini prawf a bennir ym Manyleb y Person ac sy'n dweud pam fod gennych ddiddordeb yn y rôl;
- enwau a manylion cyswllt dau ganolwr y gallwn gysylltu â nhw ar ôl llunio'r rhestr fer (noder na fyddwn ni'n gofyn am eirda heb roi gwybod i chi'n gyntaf).

Cofiwch lenwi'r holiadur monitro cydraddoldeb byddwch yn derbyn gan Goodson Thomas pan fyddwch yn ymgeisio. **Ni fydd unrhyw un sydd ynghlwm wrth asesu'ch cais yn cael gweld y ffurflen hon.**

Dylid cyflwyno ceisiadau trwy https://www.goodsonthomas.com/opportunities gan nodi cyfeirnod 0314-GT-ACW

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **09:00 y bore ar ddydd Mercher 1 Medi 2021**.

I gael sgwrs gyfrinachol anffurfiol am y penodiad, cysylltwch â Goodson Thomas ar https://www.goodsonthomas.com/contact/

Cyflogwr cynhwysol yw Cyngor Celfyddydau Cymru, ac rydyn ni'n awyddus i adlewyrchu'r cymunedau amrywiol a wasanaethwn. Croesewir ceisiadau gan bobl amrywiol o ran eu diwylliant a'u hethnigrwydd ac rydyn ni'n annog ac yn croesawu ceisiadau gan grwpiau a dangynrychiolir. Croesewir ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg. Ein nod yw cymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn cael eu dewis am swyddi ar sail eu haddasrwydd ar gyfer y rôl a dim byd arall.

Os oes anabledd gennych, dylech nodi unrhyw gymorth neu addasiadau penodol fydd arnoch eu hangen i'ch galluogi i gael cyfweliad yn eich cais.

## Amserlen Recriwtio

| | |
|---|---|
| Dyddiad Cau ar gyfer ceisiadau | 09:00 y bore ar 1 Medi 2021 |
| Cyfarfod Llunio'r Rhestr Hir | Wythnos 7 Medi 2021<br>(rhoddir gwybod i'r ymgeiswyr am y canlyniad yn syth wedyn) |
| Cyfweliadau Cyntaf (gyda'r Ymgynghorwyr) | Wythnos 13 Medi 2021 |
| Cyfarfod Llunio'r Rhestr Fer | Wythnos 20 Medi 2021<br>(rhoddir gwybod i'r ymgeiswyr am y canlyniad yn syth wedyn) |
| Proffilio ymgeiswyr i'r rhai sy'n cyrraedd y rhestr fer | O wythnos 27 Medi 2021 ymlaen<br>(bydd yr Ymgynghorwyr yn cysylltu â'r ymgeiswyr a ddewisir i drefnu iddynt gyflawni profion ar lein) |
| Sgyrsiau anffurfiol gyda Siân Tomos i'r ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer | Wythnos 27 Medi 2021 |
| Cyfweliadau Panel Terfynol | 13 neu 14 Hydref 2021 |

Cynhelir y cyfweliadau naill ai ar-lein neu yn:

Cyngor Celfyddydau Cymru
Plas Bute
Caerdydd
CF10 5AL

Rhowch wybod i ni yn eich cais os nad ydych chi'n gallu dod ar y diwrnod a gynigiwyd ar gyfer y cyfweliad. Mae hi'n bosibl y bydd modd trefnu dyddiad arall, ond ni ellir gwarantu hyn. Dylid nodi na ellir ad-dalu costau a dynnir gan ymgeiswyr yn ystod y broses recriwtio oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol, a dim ond gyda chytundeb ymlaen llaw y gellir gwneud hyn.